CIWB

**Tasg 2**

# Trefnu'r stori

Ar y dudalen nesaf, mae stori Dwynwen – ond dydy hi ddim yn y drefn gywir.

Argraffwch y stori ar gerdyn.

Torrwch y sgwariau allan a gosodwch y stori yn y drefn gywir.

| Geirfa | |
|---|---|
| trefn | order |
| argraffu | to print |
| gosod | to place, put |

Edrychwch ar y geiriau yma'n gyntaf – byddan nhw'n eich helpu chi.

| Geirfa | |
|---|---|
| tywysoges | princess |
| priodi | to marry |
| tywysog | prince |
| gweddïo | to pray |
| anghofio | to forget |
| ar ôl | after |
| pan | when |
| diod | drink |
| darn o rew | lump of ice |
| lleian | nun |
| ynys | island |
| tro | turn (command form) |
| tri pheth | three things |

Dyma ddechrau'r stori:

| | |
|---|---|
| **Roedd Dwynwen yn dywysoges. Enw tad Dwynwen oedd Brychan Brycheiniog.** | **Roedd tad Dwynwen eisiau i Dwynwen briodi tywysog.** |

| | | |
|---|---|---|
| **Mae'n bosib mynd i'r ynys heddiw – Ynys Llanddwyn (Llan + Ddwyn(wen)).** | **Roedd Dwynwen yn drist iawn. Rhedodd hi i'r goedwig a gweddïodd hi.** | **Pan oedd hi'n gweddïo, dwedodd hi "Dduw, helpa fi i anghofio Maelon, os gweli di'n dda."** |
| **Yna, roedd Dwynwen eisiau diolch i Dduw, felly aeth hi'n lleian ac aeth hi i fyw ar ynys ger Ynys Môn.** | **"Na chei," dwedodd tad Dwynwen, "Rhaid i ti briodi'r tywysog."** | |
| **Yn ail, gofynnodd hi, "Dduw, helpa pobl mewn cariad, os gweli di'n dda."** | **Yn drydydd, dwedodd hi, "Dw i ddim eisiau priodi – byth!"** | **Ar ôl gweddïo, daeth angel at Dwynwen. Rhoiodd yr angel ddiod i Dwynwen a rhoiodd Dwynwen y ddiod i Maelon. Yn sydyn, troiodd Maelon yn ddarn o rew.** |
| **Ond roedd Dwynwen eisiau priodi dyn arall. Gofynnodd hi i Brychan, "Ga i briodi Maelon achos dw i'n caru Maelon."** | **Yn gyntaf gofynnodd hi, "Dduw, tro Maelon yn ddyn eto – ddim yn ddarn o rew os gweli di'n dda." Troiodd Maelon yn ddyn eto.** | **Pan welodd Dwynwen fod Maelon yn ddarn o rew, cafodd hi sioc. Felly gweddïodd hi eto. Gofynnodd Dwynwen i Dduw am dri pheth** |